



Hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Canllaw i rieni a theuluoedd



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen 'Canllaw i rieni am hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'.

Medi 2022

Sut i ddefnyddio'r dogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd hi'n anodd deall geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi siecio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 25**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**.



Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad	4
Y ddeddf newydd.....	5
Beth sy'n newid?	7
Beth yw ADY?	8
Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod ADY gyda'ch plentyn	9
Cynllun i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY	11
Beth i'w wneud os dydych chi ddim yn cytuno	14
Eiriolwr	18
Hawl i apelio	20
Cyfaill Achos	23
Cymorth Pellach.....	24
Geiriau anodd	25

Cyflwyniad



Canllaw i rieni yw hwn am hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Bydd y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am:



- sut y bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu cefnogi o dan y system ADY



- sut y bydd y system ADY yn gweithio



- beth mae rhieni yn gallu ei wneud os ydyn nhw'n anghytuno gyda phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grwpiau o bobl sy'n darparu cymorth ar gyfer eu plentyn



- yr hawliau sydd gan blant, eu rhieni a phobl ifanc o dan y system ADY.

Y ddeddf newydd



Rydyn ni wedi cyflwyno deddf a rheolau newydd yng Nghymru.

Enw'r ddeddf hon yw'r **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg** ac mae'r rheolau newydd yn cael eu hesbonio yn y **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**.



Bydd ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn rhoi llawer o wybodaeth i chi am y ddeddf **ADY** newydd.



Un o'r prif bwyntiau yn y ddeddf newydd yw gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gyfrifol am helpu plant a phobl ifanc ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** yn gwrando.



Er enghraifft, pobl sy'n gweithio mewn:

- ysgolion
- colegau
- awdurdodau lleol
- iechyd.



Byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am bethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Beth sy'n newid?



Dyma'r enwau newydd a fydd yn cael eu defnyddio:

- Bydd **anghenion addysgol arbennig** (AAA) yn dod yn **anghenion dysgu ychwanegol** (ADY)
- Bydd **cydlynwyr anghenion addysgol arbennig** (SENCos) yn dod yn **gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol** (ALNCos)
- Bydd **darpariaeth addysgol arbennig** (SEP) yn dod yn **ddarpariaeth dysgu ychwanegol** (ALP)



Bydd cynlluniau **fel cynlluniau addysg unigol** (IEPs) a **chynlluniau dysgu a sgiliau** (LSPs) yn cael eu newid i fod yn **gynlluniau datblygu unigol** (IDPs).

Beth yw ADY?


Mae plant a phobl ifanc sydd ag **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Gallai hyn fod oherwydd:



- bod anhawster neu anabledd gyda nhw sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw
- eu bod nhw'n ei chael hi'n anoddach i ddysgu na phlant a phobl ifanc o'r un oedran
- bod anabledd gyda nhw sy'n golygu nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.



Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod **ADY** gyda'ch plentyn



Os ydych chi'n meddwl bod **ADY** gyda'ch plentyn, mae beth rydych chi'n gallu ei wneud yn dibynnu ar oedran y plentyn.



Mae hi hefyd yn dibynnu os ydyn nhw'n mynd i feithrinfa, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion (PRU) awdurdod lleol.



Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i ysgol, mae'r plentyn, eu rhieni, neu'r person ifanc ei hun yn gallu dweud wrth:

- y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (ALNCo)
- y pennaeth
- neu'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth

eu bod nhw'n meddwl bod anghenion dysgu ychwanegol gyda'r plentyn.



Pan fydd person ifanc yn mynd i goleg, maen nhw'n gallu dweud wrth y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol neu eu tiwtor.

Mae rhieni plant o'u geni hyd at 5 oed sydd ddim yn mynd i feithrinfa neu ysgol awdurdod lleol yn gallu dweud wrth y canlynol:

- swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol (EY ALNLO)
- tîm ADY y blynyddoedd cynnar.



Ar ôl i chi ddweud wrth yr awdurdod lleol, mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu os oes angen cymorth ychwanegol gyda dysgu ar eich plentyn.



Pan nad yw plentyn neu berson ifanc yn mynd i feithrinfa, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion (PRU) awdurdod lleol, gallan nhw, neu eu rhieni ddweud wrth yr awdurdod lleol eu bod nhw'n credu bod ADY gyda'r plentyn.

Cynllun i bob plentyn a pherson ifanc ag ADY



Bydd cynllun gyda phob plentyn a pherson ifanc gydag ADY. Enw'r cynllun hwn fydd **cynllun datblygu unigol**.



Bydd y **cynllun datblygu unigol** yn dweud beth sydd ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc er mwyn iddyn nhw allu dysgu.

A beth fydd yn cael ei wneud fel bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael y gefnogaeth briodol yn yr ysgol neu goleg.



Mae rhaid i blant, eu rhieni a phobl ifanc fod yn rhan o'r **holl** benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y cynllun hwn.



Mae rhaid meddwl am feddyliau, teimladau a dewisiadau'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc ar gyfer y cynllun hwn.



Dylai plant, eu rhieni a phobl ifanc gael gwybodaeth am y cynllun hwn cyn unrhyw gyfarfod.



Yr awdurdod lleol, yr ysgol neu'r coleg fydd yn gwneud y cynllun. Ond bydd pawb yn rhan o'i ysgrifennu.




Weithiau fydd ysgol neu goleg ddim yn credu eu bod nhw'n gallu cefnogi ADY y plentyn neu'r person ifanc.



Os ydyn nhw'n meddwl hyn, maen nhw'n gallu gofyn i'r awdurdod lleol helpu.




Os yw'r plentyn, eu rhieni neu'r person ifanc yn anhapus gyda'r cynllun, maen nhw'n gallu dweud hynny.



Mae'r **cynllun datblygu unigol** yn ddogfen gyfreithiol, felly mae'n rhaid i bawb dan sylw wneud beth mae'n ei ddweud.

Bydd y cynllun yn cael ei wirio:



- bob 12 mis neu
- pan fydd rhywun yn gofyn iddo fe gael ei wirio neu
- pan fydd unrhyw beth yn newid i'r plentyn neu'r person ifanc

Beth i'w wneud os dydych chi ddim yn cytuno



Rydyn ni am weithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod unrhyw broblemau'n gallu cael eu datrys cyn gynted â phosib.



Rydyn ni am geisio stopio unrhyw anghytundebau am gynllun plentyn neu berson ifanc.



Mae rhaid i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael cymorth i:

- ddeall y cynllun
- bod yn rhan o ysgrifennu'r cynllun
- bod yn rhan o benderfyniadau yn y cynllun sy'n effeithio arnyn nhw
- siarad am eu pryderon
- cael atebion i'w cwestiynau



Efallai y bydd plant, eu rhieni a phobl ifanc yn dal i anghytuno. Pan fydd hyn yn digwydd, mae rhaid datrys pethau yn gyflym ac yn lleol.



Pan fydd unrhyw un yn anghytuno gyda rhywbeth yn y cynllun, mae rhaid i awdurdodau lleol:

- wneud yn siŵr bod rhywun sydd **ddim** yn gysylltiedig â'r cynllun yn gallu gwrando a helpu.
- gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc a rhieni yn gwybod bod hyn yn bosib.



Mae rhaid i awdurdodau lleol fod â ffordd o ddatrys problemau'n gyflym.



Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr na fydd rhaid i blant, eu rhieni a phobl ifanc **apelio**.

Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei ystyried achos eich bod am iddo fe gael ei newid




Ond os yw'r plentyn, eu rhieni neu berson ifanc yn dal i fod yn anhapus, maen nhw'n gallu **apelio**.

Mae plant, eu rhieni a phobl ifanc yn gallu herio penderfyniadau am **ADY**.

Mae hyn yn cynnwys:




- a oes **ADY** gyda phlentyn neu berson ifanc



- sut mae **ADY** plentyn neu berson ifanc yn cael eu nodi yn y cynllun datblygu unigol



- y gefnogaeth sy'n cael ei nodi yn y cynllun datblygu unigol



- pwy sy'n gyfrifol am ofalu am y cynllun datblygu unigol.



Mae plant, eu rhieni a phobl ifanc hefyd yn gallu gofyn i awdurdod lleol ailystyried rhai penderfyniadau os ydyn nhw'n anhapus.

- penderfyniad gan ysgol mewn perthynas ag a oes **ADY** gyda phlentyn neu berson ifanc neu beidio
- cynllun datblygu unigol (IDP) ysgol gyda'r bwriad o'i newid e
- penderfyniad gan ysgol i orffen cynllun datblygu unigol

Eiriolwr



Mae plentyn neu berson ifanc yn gallu cael **eiriolwr** i'w helpu nhw gyda datrys problemau a gwneud **apêl**.

Eiriolwr yw rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl. A sut maen nhw'n teimlo.



Mae rhaid i awdurdodau lleol ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc sut i gael **eiriolwr** os ydyn nhw'n gofyn am un.



Bydd awdurdodau lleol yn dweud wrth bobl am **eiriolwyr** drwy ddefnyddio poster, taflenni a gwefannau.

Mae rhaid i'r **eiriolwr** fod yn rhywun sydd ar wahân i'r awdurdod lleol. Efallai y bydd yr **eiriolwr** yn dod o wasanaeth **eirioli** yn eu hardal nhw.



Bydd yr **eiriolwr** yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i **apelio**. Mae'r **eiriolwr** yn gallu helpu i wneud pethau fel

- meddwl am yr **apêl** a rhoi cyngor am beth sy'n gallu cael ei wneud
- ysgrifennu llythyrau
- mynd i gyfarfodydd i siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

Hawl i apelio




Mae plant, eu rhieni a phobl ifanc yn gallu gofyn i **Dribiwnlys Addysg Cymru** edrych ar anghytundebau.



Tribiwnlys Addysg Cymru yw grŵp o bobl sy'n gyfrifol am ddelio gydag anghytundeb.

Mae plentyn, eu rhieni a pherson ifanc yn gallu **apelio** i **Dribiwnlys Addysg Cymru** am bethau, er enghraifft:



- penderfyniad am ba **ADY** sydd gyda phlentyn neu berson ifanc.



- awdurdod lleol sy'n penderfynu os oes angen cynllun ar rywun.



- pa gymorth sydd ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc, yn ôl y cynllun.



- yr ysgol y dylai'r person fynd iddi hi, yn ôl y cynllun.



- dim ysgol yn cael ei henwi yn y cynllun.




- penderfyniad i beidio â gwirio cynllun.



- penderfyniad i beidio â pharhau gyda chynllun.



- penderfyniad am a ddylai cymorth gael ei ddarparu yn Gymraeg.



- penderfyniad i orffen cynllun datblygu unigol.



Mae rhaid i bawb gytuno gyda phenderfyniad **Tribiwnlys Addysg Cymru**.



Mae rhaid i unrhyw **apêl** yn erbyn **Tribiwnlys Addysg Cymru** ymwneud â sut gwnaethan nhw ddefnyddio'r gyfraith. Os oes angen, mae hyn yn gallu mynd at **Dribiwnlys** uwch.

Cyfaill Achos

Efallai fydd rhai plant ddim yn deall eu hawliau'n llwyr o dan y system **ADY**. Mae plant yn gallu cael cyfaill achos a fydd yn:



- helpu i gefnogi'r plentyn



- helpu i siarad ar ran y plentyn



- helpu i gymryd penderfyniadau dros y plentyn



- helpu'r plentyn i ddeall gwybodaeth **ADY**.



Mae plant a'u rhieni yn gallu gofyn i **Dribiwnlys Addysg Cymru** am gyfaill achos.

Cymorth Pellach



Mae llawer o sefydliadau sy'n gallu rhoi gwybodaeth i chi am **ADY** a'ch hawliau chi

Dyma rai o'r sefydliadau sy'n gallu helpu:



- [SNAP Cymru](#)
- [Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar](#)
- [Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru](#)
- [Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru](#)
- [Comisiynydd Plant Cymru](#)
- [Gyrfa Cymru](#)

Geiriau anodd

Apêl

Mae apêl yn ffordd ffurfiol o ofyn i benderfyniad gael ei ystyried achos eich bod am iddo fe gael ei newid.

Eiriolwr

Eiriolwr yw rhywun sy'n siarad ar ran rhywun arall. Maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl a sut maen nhw'n teimlo.

Eiriolaeth/eirioli

Ystyr hyn yw pan fydd rhywun yn siarad ar eich rhan chi.